**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/KW/0561/20

Elin Jones AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

14 Chwefror 2020

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020; Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020; a Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) (Dirymu) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y bydd y tri Offeryn Statudol (OS) hyn yn dod i rym o fewn 21 o ddiwrnodau o'r dyddiad y cânt eu gosod. Mae'r Memoranda Esboniadol ar gyfer y rheoliadau hyn ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020 a Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017, Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018, Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) (Dirymu) 2020 yn dirymu Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020.

Mae'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr, a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1988, yn sail i'r system ar gyfer rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac yn cyflawni cyrsiau addysg uwch dynodedig.

Bwriad Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020 yw gweithredu polisi Llywodraeth Cymru ar gyllid myfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 a chafwyd eu gosod ddoe. Dônt i rym cyn bod 21 o ddiwrnodau wedi mynd heibio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae hyn oherwydd gwall gweinyddol pan gawsant eu gwneud a'u gosod, a arweiniodd at aneglurder ynghylch y ddarpariaeth dod i rym.

Oherwydd hyn, bydd y Gweinidog Addysg yn dirymu'r rheoliadau hyn drwy Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) (Dirymu) 2020, sydd yn cael eu gosod heddiw. Daw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) (Dirymu) 2020 i rym y diwrnod ar ôl iddynt gael eu gwneud, cyn bod 21 o ddiwrnodau wedi mynd heibio. Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod modd dirymu'r OS gwreiddiol yn brydlon.

Caiff Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020 eu dirymu felly. Caiff Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 hefyd eu gosod heddiw (ac maent yn cynnwys union yr un prif ddarpariaethau â'r rheoliadau y byddant yn eu disodli). Dyddiad dod i rym Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 yw 2 Mawrth 2020. Mae hyn cyn bod 21 o ddiwrnodau wedi mynd heibio. Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod y rheoliadau hyn yn cael eu gwneud yr un pryd â'r Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 yr ysgrifennais ichi amdanynt mewn llythyr ar wahân ddoe (fy nghyfeirnod: MA/KW/0556/20), gan fod angen y ddwy set o reoliadau i wneud y diwygiadau gofynnol i'r ddeddfwriaeth cymorth i fyfyrwyr mewn pryd ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21. Fel y nodais yn fy llythyr arall, mae angen galluogi'r broses ymgeisio am gyllid myfyrwyr i gychwyn cyn gynted â phosibl ac i osgoi unrhyw effaith negyddol diangen ar fyfyrwyr.

Dylwn egluro na fydd hyn yn cael unrhyw effaith o bwys oni bai am ddod â'r tair set o reoliadau i rym o fewn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau.

Mae Memoranda Esboniadol wedi'u llunio a'u gosod, ynghyd â'r rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn hefyd yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd